

Strategaeth y WCIA ar gyfer 2014-19

Gweledigaeth y WCIA yw bod pawb yng Nghymru yn cyfrannu at greu byd teg a heddychlon.

Er mwyn cyflawni hyn, ein **cenhadaeth** yw ysgogi dysgu a gweithredu ar faterion byd-eang.



Ynghylch y WCIA

Elusen gofrestredig yw'r WCIA sy'n ymgorffori CEWC (Cyngor Addysg mewn Dinasyddiaeth Byd, ein cangen ysgolion) a Chymdeithas Cenhedloedd Unedig Cymru (ein cangen ymgyrchu ac eirioli). Rydym hefyd yn westeiwr i Hub Datblygu Rhyngwladol Cymru.

Rydym yn gweithio mewn tri phrif ffordd:

- Darparu gweithgareddau o safon, sy'n cynnwys digwyddiadau, gweithgareddau ysgol a hyfforddiant
- Gweithio gyda phartneriaethau ar brosiectau arloesol
- Cysylltu pobl yng Nghymru gyda gweithgareddau rhyngwladol eraill

Beth yw pwrpas y strategaeth hon

Mae'r WCIA yn ceisio bod o fudd i bobl o bob oedran a gallu, ar draws Cymru, a Chymry sy'n byw y tu hwnt i'n ffiniau.

Rydym yn awyddus i ddarparu ystod o weithgareddau a chymorth o safon, sy'n ddigon amrywiol i gynnwys pawb, fel bod pobl yn dod yn ffrindiau gydol oes i'n helusen.

Yn y strategaeth hon, rydym yn nodi sut y bydd y WCIA yn gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth hon dros y pum mlynedd nesaf. Rydym yn edrych ymlaen at eich croesawu ar ein taith.

Rhoi ein strategaeth mewn cyd-destun

1. Ein cefndir

Sefydlwyd y WCIA ym 1973, tra bod hanes CEWC ac UNA Cymru (sydd bellach yn rhan o'r un elusen) yn ymestyn yn ôl i'r 1940au. Trwy gydol yr amser hwnnw, mae diben cyffredinol ein gwaith wedi aros yr un fath: cael pobl i feddwl, siarad, a gweithredu ar faterion byd-eang pwysig.

Mae ein dulliau dros wneud hynny, wrth gwrs, wedi esblygu dros y blynyddoedd, ac rydym wedi gweld rhai llwyddiannau nodedig:

- Cyfrifoldeb dros Ymgyrch Rhyddid rhag Newyn y DU yn y 1970au, sy'n gweinyddu prosiectau mawr yn India ac Affrica
- Codi arian ar gyfer Dolen Cymru-Lesotho, a arweiniodd yn ddiweddarach at sefydlu Dolen Cymru
- Croesawu gwesteion lefel uchel, gan gynnwys ymweliadau cyntaf Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig i Gymru (1983) a'r Archesgob Desmond Tutu (2012)
- Cynnal Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd ym 1995 a 2006
- Cynnwys dros 200,000 o bobl ifanc o Gymru mewn digwyddiadau a gweithgareddau sydd â ffocws byd-eang
- Cyflawni prosiectau mawr ar Gymru a Rhyfel Cartref Sbaen, addysg dinasyddiaeth fyd-eang, a'r dull Addysgu Athroniaeth i Blant

Mae'r WCIA heddiw yn deillio o'r llwyddiannau hyn, gwaith ein tîm, a chyd-destun y byd fel y mae yn awr (gweler isod). Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yw sefydliad sydd â nifer o gryfderau penodol:

- Mae gennym werthoedd rhyngwladolaidd ond rydym yn benderfynol amhleidiol, sy'n ein gwneud yn fforwm 'diogel' ar gyfer y cyhoedd, llywodraethau, busnesau ac ysgolion
- Rydym yn gweithio ar draws sbectwm eang o faterion rhyngwladol, sy'n cynnwys tlodi, heddwch a chyfiawnder, cynaliadwyedd a hawliau dynol
- Rydym yn darparu cymysgedd iach o wasanaethau craidd a phrosiectau uchelgeisiol
- Rydym yn gysylltiedig â llawer o sefydliadau eraill sydd â ffocws byd-eang, ac wedi ffurfio partneriaethau cryf gydag ysgolion, prifysgolion ac elusennau eraill
- Mae gennym hanes hir o lwyddiant yn ein gwaith addysgol
- Rydym yn rheoli ased hanfodol yn y Deml Heddwch ac Iechyd, gan groesawu sefydliadau eraill a darparu lleoliad ar gyfer llawer o ddigwyddiadau allanol

Y WCIA a chi

Fel cefnogwr y WCIA, efallai y byddwch yn dechrau eich taith gyda ni pan fyddwn yn ymweld â'ch ystafell ddosbarth yn yr ysgol gynradd i arwain trafodaeth ar hawliau plant, tra bydd eich athro yn dod ag athroniaeth i'r ystafell ddosbarth ar ôl mynychu hyfforddiant gyda ni. Efallai y byddwch yn dod ar ein traws ni eto yn y coleg, wrth i chi gynrychioli Tsieina neu Frasil yn un o'n cynadleddau Model y Cenhedloedd Unedig.

Efallai y byddwch yn cael eich ysbrydoli i aros yng Nghymru ac astudio cysylltiadau rhyngwladol yn y brifysgol, lle byddwch yn dod ar ein traws yn gweithio gyda chymdeithasau myfyrwyr sy'n annog gweithredu ar faterion byd-eang.

Efallai y byddwch yn mynd ymlaen i weithio neu wirfoddoli ym maes datblygu rhyngwladol ac yn elwa ar y cyfleoedd rydym yn eu cynnig drwy Hub Datblygu Rhyngwladol Cymru. Neu efallai y byddwch yn gwella eich sgiliau trwy wirfoddoli gyda ni, neu y byddwn yn eich cyfeirio at lu o grwpiau lleol sydd â ffocws rhyngwladol.

A phwy bynnag ydych chi, ac ni waeth ar ba gam yn eich bywyd neu'ch gyrfa, bydd trafodaethau heriol i gymryd rhan ynddynt, sgiliau beirniadol i'w dysgu, prosiectau i gymryd rhan ynddynt, storiâu i'w rhannu a chwestiynau i'w gofyn am y materion mawr sy'n effeithio ar eich bywydau.

Mae taith y cefnogwr hwn yn crynhoi uchelgais y WCIA; rydym eisiau gweld Cymru lle mae pawb yn gallu ffynnu oherwydd eu rôl mewn materion byd-eang; lle mae cael agwedd allblyg a chael cysylltiadau rhyngwladol yn nodwedd bositif a gwahaniaethol o hunaniaeth Cymru.

- Mae gennym frand unigryw a phresenoldeb ar-lein o safon uchel

2. Byd heddiw

Fel elusen sydd ag agwedd allblyg, mae ein gwaith yn cael ei lunio gan yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru ac yn y byd ehangach.

Mae rhai o'r ffactorau allanol yn adnabyddus, gan eu bod yn effeithio ar ein bywydau bob dydd a'u bod nhw bob amser yn y newyddion. Mae gan y dirywiad economaidd presennol, er enghraifft, wreiddiau byd-eang, ond effeithiau cenedlaethol a lleol. A gellir dadlau ei fod wedi cymedroli ymateb y gymuned ryngwladol i newid yn yr hinsawdd, sydd efallai'n diffinio'r prif fater rhyngwladol yn yr 21ain ganrif. Mae technolegau cyfathrebu yn cynnig mwy o gyfleoedd nag erioed o'r blaen i gysylltu â phobl ar draws y byd, ac yn gweithredu ar y cyd ar faterion sy'n ymwneud â thlodi a hawliau dynol.

Efallai na fydd ffactorau eraill fod mor amlwg, ond maen nhw wrth wraidd sut mae'r byd yn gweithio a gwledydd yn rhyngweithio. Cyn bo hir, bydd Nodau Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig, sy'n anelu at drawsnewid ansawdd bywyd yng ngwledydd tlotaf y byd, yn cael eu disodli gan set newydd o nodau ac felly, heriau newydd. Bydd y rhain yn chwarae rôl allweddol mewn dadleuon dros gymorth rhyngwladol a'n cyfrifoldebau tuag at ein cyd-ddynion.

Mewnfudo, cyllid corfforaethol, diogelwch bwyd ac, wrth gwrs, y frwydr barhaus am heddwch yw dim ond rhai o'r pynciau eraill sy'n diffinio ein bywydau, ac felly, gwaith y WCIA wrth gysylltu Cymru â'r byd.

Byddwn yn gwneud yn siŵr bod gwaith y WCIA yn berthnasol i fyd heddiw, ac i fywydau pobl yng Nghymru.

Rydym hefyd yn cael ein heffeithio gan flaenoriaethau gwleidyddol a gwirioneddau economaidd yng Nghymru ei hun.

Mae'r WCIA hwn yn rhoi cefnogaeth gref i raglen Cymru o Blaid Affrica Llywodraeth Cymru, sy'n helpu cymunedau yng Nghymru ac Affrica i gefnogi a helpu ei gilydd; ac mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, menter bwysig sy'n tanategu addysg fyd-eang yng Nghymru.

Fodd bynnag, er bod llawer o wleidyddion yng Nghymru yn rhyngwladolaidd o ran agwedd, ni fydd hyn o reidrwydd yn golygu cyllid parhaus ar gyfer gweithgareddau rhyngwladol.

Blaenoriaeth gyntaf Llywodraeth Cymru yw mynd i'r afael â thlodi a darparu gwell cyfleoedd i gael swyddi. Mae'r Bil Cenedlaethau'r Dyfodol sydd ar ddod yn ymwneud cymaint â chynnaladwyedd swyddi a chyflogaeth ag y mae â gwarchod yr amgylchedd neu gyfrifoldebau rhyngwladol Cymru. Mae'r cysylltiadau pwysig rhwng y meysydd hyn - rhwng penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru a chynnaladwyedd byd-eang - yn aml yn mynd heb gydnabyddiaeth.

Byddwn yn helpu i gryfhau penderfyniad y llywodraeth i gefnogi rhaglenni sydd â ffocws rhyngwladol, ac ar yr un pryd, yn cefnogi pobl i ddatblygu sgiliau a hyder i ymgysylltu â'r byd ehangach.

I orffen, ar hyn o bryd, mae elusennau yn wynebu eu her fwyaf eto o ran sicrhau cyllid; mae patrymau ariannu wedi symud oddi wrth y tymor hir i'r tymor byr ac mewn rhai achosion, mae'r ffynonellau cymorth wedi diflannu'n gyfan gwbl. Mae'r heriau hyn wedi arwain at arloesedd yn y trydydd sector, gydag elusennau yn rhoi mwy o bwyslais ar bartneriaeth a chyd-gefnogaeth, ac

yn mabwysiadu modelau gweithio newydd i sicrhau bod eu gwasanaethau yn gallu parhau.

Bydd y WCIA yn parhau i addasu i'r hinsawdd heriol hon, ac yn cynnig gwasanaethau newydd a ffurfio partneriaethau newydd i sicrhau bod ein gwaith yn parhau ac yn cryfhau.

Ein strategaeth ar gyfer 2014-19

O fewn y cyd-destun hwn, mae ein strategaeth yn ceisio dwyn ynghyd dwy agwedd bwysig. Yn gyntaf, rydym yn credu bod ymwneud â materion byd-eang yn werthfawr yn ei hunan ac o'i hunan. Yn ail, rydym yn gwybod ei fod yn fwy heriol nag erioed o'r blaen i lwyddo yn y farchnad fyd-eang; felly mae angen i bobl allu cyfathrebu ar draws diwylliannau a gwledydd a chael ymwybyddiaeth o'r byd tu allan i Gymru. Mae'r ddau hyn yn cael eu cysylltu oherwydd **mae bod ynghlwm wrth faterion byd-eang yn meddu ar y pŵer i drawsnewid ein gwerthoedd, ein rhagolygon, a'n hagwedd at fywyd.** Gyda'i gilydd, gallant helpu Cymru i ddod yn genedl fwy cynaliadwy, sydd ag agwedd allblyg.

Rydym felly wedi sefydlu tair blaenoriaeth strategol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

1. Ysbrydoli ystod ehangach o bobl yng Nghymru i ddysgu am, a gweithredu ar faterion byd-eang

Rydym eisiau i waith y WCIA fod yn berthnasol i fywydau pob dydd mwy o bobl, a bod yn groesawgar a chynhwysol. Byddwn yn mynd ati i geisio cynnwys grwpiau sydd wedi eu hymyleiddio yn ein gwaith ac yn gwneud y gorau o gyfleoedd cyfathrebu ar-lein. Rydym hefyd yn awyddus i gefnogi busnesau Cymreig i gryfhau'r dimensiwn rhyngwladol yn eu gwaith. Os nad oes gennym y gallu i wneud pethau ein hunain, byddwn yn helpu pobl i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r sefydliadau sydd eu hangen arnynt.

2. Darparu mwy o gyfleoedd i bobl wirfoddoli a datblygu sgiliau

Rydym yn cydnabod bod datblygu sgiliau'n ganolog os yw Cymru i ddod yn genedl gryfach, fwy cynaliadwy; felly, rydym eisiau cefnogi datblygiad personol a phroffesiynol pobl wrth iddynt ddod ynghlwm mewn materion rhyngwladol. Mae darparu cyfleoedd gwirfoddoli gwych yn rhan bwysig o'r ymgyrch hon, a gallai, yn ei dro, wella ansawdd a chyrhaeddiad gwaith y WCIA. Gallwn hefyd wneud cyfraniad gwerthfawr drwy'r gwasanaethau yr ydym yn eu cyflwyno i ysgolion a busnesau.

3. Chwarae rôl gryfach o ran datblygu Cymru fel cenedl allblyg a llwyddiannus

Rydym yn cefnogi uchelgais i Gymru fod yn arweinydd byd-eang ym maes datblygu cynaliadwy, ac rydym yn awyddus i chwarae ein rhan wrth wneud i hyn ddigwydd. Mae gan Gymru gryfderau diwylliannol a hanesyddol a all roi llais unigryw iddi mewn materion rhyngwladol, a byddwn yn cynnal dadleuon ac yn dylanwadu ar bolisi'r llywodraeth i'r perwyl hwn. Ym maes datblygu rhyngwladol yn benodol, byddwn yn helpu Cymru i adeiladu ar ei chryfderau, sef cyfranogiad cymunedol a chysylltu rhyngwladol. Mae gan bobl unigol rôl hanfodol i'w chwarae yn y datblygiadau cenedlaethol hyn.